# Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)

## Cofnodion (LS(3)-10-08)

**Dyddiad: 13 Tachwedd 2008**
**Amser: 9.30am - 12.15pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Jeff Cuthbert, Caerffili (Cadeirydd)
Christine Chapman (Cadeirydd dros dro o 10.43am), Cwm Cynon
Andrew R T Davies, Canol De Cymru
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Claire Griffiths, Clerc
Sarah Beasley, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Anne Thomas, Uwch Swyddog Ymchwil

### Tystion

John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau
Grace Martins, yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mark Leighfield, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau

### Eitem 2: Y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 - Cyfnod 1, Sesiwn Dystiolaeth 8

2.1 Clywodd y pwyllgor dystiolaeth lafar gan John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, a gefnogwyd gan Grace Martins, yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, a Mark Leighfield, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2.2 Gwahoddodd y pwyllgor y tyst, os oedd yn dymuno hynny, i anfon unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol ynghylch unrhyw un o'r materion a godwyd yn ystod ei sesiwn dystiolaeth.

2.3 Am 10.42am, ymddiheurodd y Cadeirydd bod yn rhaid iddo adael y cyfarfod oherwydd bod ganddo ymrwymiad blaenorol. Gofynnodd am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 10.19. Enwebwyd Christine Chapman ac fe'i hetholwyd.

### 4. Sesiwn Breifat

4.1 Cytunodd y pwyllgor y cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 (vi) i wahardd y cyhoedd o'i drafodaethau o dan eitem 5 ac o unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol ar argymhellion allweddol yr adroddiad ar Gyfnod 1.

4.2 Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 10.54am a 11.02am

### 5. Y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 - Cyfnod 1, Ystyried y Materion Allweddol

5.1 Ystyriodd y pwyllgor faterion allweddol y dystiolaeth a glywodd a chytunodd ar ei safbwynt ar gyfer yr adroddiad.